Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 24ain Dachwedd 2020

Presennol– Gareth Wynne Cadeirydd, Gwawr Jones, Janet Charlton, Neil Pringle, Dyfed Jones, Caerwyn Roberts, Clerc.
Ymddiheuriad Sian Godbert, Barbara Drake, Cllr Elizabeth Roberts
Datgan diddordeb –Dim datganiad

Estynnwyd croeso gan y Cadeirydd i bawb i'r cyfarfod., diolchwyd hefyd i'r clerc am ofalu bod y cyfarfod wedi ei drefnu mewn amgylchedd diogel.

Ymddiswyddiad Dywedodd y clerc bod y Cyng Nick Corney wedi ymddiswyddo ar y 23ain Dachwedd 2020. Y clerc i gysylltu gyda Chyngor BS Conwy ynglŷn â'r sedd wag.

Cofnodion – Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 8fed Gorffennaf 2020

Materion yn codi
(1) Yr Heddlu
Nid oedd yr heddlu'n bresennol, ond bod SCHG Gareth Roberts wedi cytuno i anfon adroddiad o'r digwyddiadau diweddara yn y fro.

[1.1] Pont Droed yn uwch i fyny'r afon o Bont-y-Pair.
Dywedodd y clerc bod y tirfeddiannwr wedi cytuno i'r bont fod ar ei dir. Y clerc i gysylltu gyda APCE, CNC, CADW, a Chyngor BS Conwy i geisio datgan eu barn ynglyn ar bwriad.

[1.2] Rheolaeth Cae Llan/ Darparu Gwasanaethau
Gan fod peth ansicrwydd ynglun a chostau ar gyfer cyflenwad dwr/trydan o'r adeilad cyfagos [ystafelloedd newid y clwb peldroed] y clerc i gysylltu gyda Scottish Power a Dŵr Cymru I geisio mwy o wybodaeth.

[1.3] Cyngor BS Conwy Gwasanaethau Cynaliadwy
Nodwyd bod y mater yn parhau

[1.4] Pont y Mwynwyr
Cyfeiriodd y clerc at wybodaeth oddiwrth y Cyngor Sir yn amlinellu fod y gwaith o osod pont newydd wedi ei ohirio o ganlyniad i waith byr rybudd arall.

[1.5] Camerâu Cylch Agos Pentre' Du
Eglurodd y clerc fel y bu i gyfarfod gyda CBS Conwy gael ei ohirio o ganlyniad i un person orfod hunan ynysu. Bydd cyfarfod pellach yn cael ei drefnu.

[1.6] Llosgi Ysbwriel tu cefn i'r Hen Lys
Nodwyd y cwynion bod perchennog yr hen lys yn llosgi ysbwriel yn cynnwys plastig yng nghefn yr adeilad . Y Cyng. Elisabeth Roberts i ddiweddaru.

[1.7] Gwaith Diogelwch Cronfeydd Dwr Gwydyr/ Llyn Tynymynydd
Nodwyd bod y gwaith wedi ei ohirio o ganlyniad coronofeirws ond bod y peiriannydd yn rhagweld na fydd oedi pellach, a bydd y gwaith yn cael ei gwblhau o fewn yr amser.

[1.8] Dosbarthu Gwybodaeth yn Lleol
Nodwyd y ddogfen a baratowyd gan y Cadeirydd ar gyfer dosbarthu gwybodaeth i'r cyhoedd. Penderfynwyd cymeradwyo a mabwysiadu'r canllawiau. Cytunodd y Cyng Gwawr Jones i ystyried sut orau i weinyddu. Y clerc hefyd i gysylltu gyda rheolwr safle'r we am arweiniad.

Y brif Agenda
[1.9] Materion Cynllunio
[a] Cwympo coeden conwydd Gwesty'r Royal Oak
[b] Gosod panel pysgota fel a ganlyn; Tir ger Llyn yr Afanc, Maes Parcio Gwesty'r Royal Oak, Maes Parcio Pont-y-Pair..
Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r tri cais uchod.

[2] Materion Ariannol
[a] Cymeradawywyd y taliadau ar derbyniadau a amlinellwyd gan y clerc ar gyfer misoedd Gorffennaf/Awst/Medi/Hydref.
[b] Eglurodd y clerc bod derbyniadau yn y Rhaeadr Ewynnol yn is na'r arferol oherwydd coronofeirws, er hynny roedd mis Awst yn uwch na blynyddoedd gynt.

[2.1] Siop Climber a Rambler
[a] Cyfeiriodd y Cadeirydd at gyfarfod gyda asiant gwerthu tai Wild Commercial, y Cyng Elisabeth Roberts a Chadeirydd APCE ynglŷn ar siop wag, lle bu I'r asiant gyfeirio at drafferthion i yrru'n mlaen gyda gwerthiant. Penderfynwyd anfon llythyr o gefnogaeth i'r asiant
[b] Deallwyd bod siop Field and Trek wedi ei gwerthu

[2.2] Ffederasiwn Ysgolion Capel Coed Elan
Cyfeiriodd y clerc at e-bost oddiwrth ysgrifenyddes y ffederasiwn yn gofyn am gynrychiolaeth o'r Cyngor Cymuned. Y clerc i anfon yn ôl bod y Cyng Janet Charlton yn cynrychioli'r Cyngor, ac nid yr LEA fel mae'r ffederasiwn yn datgan.

[2.3] Ymylon, Ffordd y Rheithordy
Deallwyd bod cerrig wedi eu gosod ar ymyl y ffordd i atal parcio gan fodurwyr. Y clerc i gysylltu gyda CBS Conwy I geisio eglurhad.

[2.4] Ysbwriel
Dywedodd y clerc iddo gysylltu gyda CNC ynglŷn â phryderon bod ysbwriel ar y llwybr aml bwrpas. Bu iddynt ateb drwy ddatgan mai dim [1/4 bag] oedd angen eu gasglu. Tynnwyd sylw'r aelodau hefyd, nad oedd CBS Conwy yn cwrdd ei dyletswyddau statudol a bod y CC wedi cymryd yr awenau i gasglu/glanhau yn y pentref ym Mhont-y-Pair , ynghyd a gwagu biniau cwn [Clwb Golf] a biniau yn y Rhaeadr Ewynnol ,Ffordd y Rheithordy ayb . Roedd hyn yn golygu costau sylweddol.

[2.5] Arwyddion Dim Parcio, Ffordd y Rheithordy
Deallwyd bod arwyddion Saesneg yn yn unig ar Ffordd y Rheithordy, a fod y clerc wedi cysylltu gyda'r Adran Ffyrdd ynglŷn a'r mater.

[2.6] Car y Llan
Deallwyd bod y gwasanaeth wedi ei atal ac nad oes dyddiad i ail gychwyn. Mae'r gwasanaeth pryn bynnag ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dosbarthu brechiad ffliw

[2.7] Gwasanaeth Sgip
Y clerc i drefnu gwasanaeth sgip ym Mhentre' Du.

[2.8] Pobl Bregus
Cafwyd ymholiad trwy e-bost gan y Cyng Barbara Drake, tybed a oedd pobl fregus angen mwy o gefnogaeth yn y gymuned. Nodwyd bod safle we'r Cyngor yn cyfeirio at hyn yn ogystal hefyd a Chlwb Rygbi Nant Conwy ac Eglwys Santes Fair. Penderfynwyd bod y Cyngor Cymuned yn barod i gynnig cymorth unrhyw amser ond bod angen ystyried cefnogaeth yn sgil preifatrwydd yr unigolyn.

[2.9] Safle Picnic Cae Llan
Eglurodd y clerc er i'r Cyngor fedru sicrhau grant tuag at greu safle picnic, roedd wedi bod yn amhosib gwneud gwaith gan fod y tir yn rhy wlyb. Nodwyd bod rhaid cwblhau y gwaith erbyn dechrau Ionawr.

[3] ] Materion Cofid 19
Nodwyd bod Y Cyng Elisabeth Roberts a Barbara Drake wedi mynuchu cyfarfod gyda CBS Conwy a hefyd MWTRA. Y manylion eisioes wedi ei dosbarthu i'r aelodau. Deallwyd bod y materion yn parhau.

Cadeirydd______________________________